

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorwyr P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman, E. Penn a J. Protheroe.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), C.P. Franks, S.J. Haines, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) and M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

142 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

143 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr C.E.A. Champion, C. Iannucci-Williams (Is-Gadeirydd) a S.T. Wiliam.

144 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2024 fel cofnod cywir, yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Driscoll wedi cynnig ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod dan sylw (ni dderbyniwyd y rhain mewn pryd i'w cynnwys yn y cofnodion perthnasol)

145 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

146 DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAID PERFFORMIAD Y PANEL A CHALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2024 gan y Cyfarwyddwr Lleoedd ar y cyd â Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai.

Roedd cyflwyniad PowerPoint yn cyd-fynd â hyn, a helpodd i rannu'r gwahanol feysydd allweddol o'r adroddiad ar gyfer y Pwyllgor, gan gynnwys Datblygu'r Cynllun Corfforaethol, Aseiad Perfformiad Panel (APP), Dysgu o hunanasesiad blynyddol 2022/2023 a'r dull arfaethedig ar gyfer 2023/2024 a'r Calendr Perfformiad Blynyddol. Ar ôl pob un o'r adrannau hyn cafwyd saib yn y cyflwyniad er mwyn galluogi'r Aelodau i ofyn cwestiynau neu i ofyn am eglurhad, ac ati.

Yn dilyn cyflwyno pob adran berthnasol o'r adroddiad, cafodd nifer o sylwadau eu gwneud a chwestiynau eu gofyn gan y Pwyllgor, gan gynnwys:

Gofynnodd y Cynghorydd Hooper a fyddai'n well symud i ffwrdd o gael cyfnod o bum mlynedd ar gyfer y Cynllun ac edrych ar rywbeth mwy hyblyg ac ystwyth yng ngoleuni materion a digwyddiadau sy'n dod i'r amlwg ac annisgwyl, er mwyn i'r Cyngor fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r pwysau neu'r heriau y byddai'r Cyngor yn eu hwynebu o ganlyniad. Esboniwyd bod cyfres o ganllawiau eithaf anhyblyg y bu'n rhaid i'r Cyngor eu dilyn o ran paratoi'r Cynllun Corfforaethol, ond, cymaint â phosibl, ceisiodd y Cyngor ddrafftio'r Cynllun yn y fath fodd fel bod rhywfaint o hyblygrwydd ac y gellid ei ddiwygio yng ngoleuni digwyddiadau annisgwyl a allai ddigwydd yn y dyfodol. Yn ogystal, roedd y Cynllun presennol wedi perfformio'n dda yng ngoleuni digwyddiadau fel yr argyfwng costau byw, y rhyfel yn Wcráin, cynnydd chwyddiant, Covid-19 ac effaith Brexit. Roedd yn hanfodol bod gan y Cyngor, fel sefydliad, gynllun craidd i weithio iddo a chydabuwyd y rhychwant amser pum mlynedd ar gyfer hyn fel arfer da ond gyda hyblygrwydd wedi'i gynnwys ar gyfer cynifer o faterion ac amgylchiadau annisgwyl â phosibl.

Gofynnodd y Cynghorydd Ernest am rôl Aelodau Etholedig "mainc gefn" fel y'u gelwir fel rhan o'r APP. Esboniwyd, fel rhan o amserlen yr APP, fel y nodwyd yng nghorff yr adroddiad, fod cyfeiriad at gynnwys craffu a'r corff ehangach o Aelodau Etholedig ym mhroses yr APP yn ogystal â'r Cyngor Llawn. Roedd hyn hefyd yn cynnwys Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mewn perthynas â'r dysgu o Hunanasesiad Blynyddol 2022/23 a'r dull arfaethedig ar gyfer 2023/24, cododd y Cynghorydd Hooper y datgysylltiad rhwng yr APP blaenorol a chanlyniadau'r arolwg trigolion "Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro" a phwysigrwydd, lle bynnag y bo'n bosibl, bod yr hunanasesiad yn cyd-fynd cymaint â phosibl â'r safbwyntiau a fynegwyd drwy'r arolwg trigolion. Roedd hyn er mwyn i'r Cynllun Corfforaethol fod yn fwy gwybodus ac er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig buddion gwirioneddol i drigolion y Fro. Esboniwyd y byddai'r broses hunanasesu ar y cyd â'r adolygiad / her cymheiriaid newydd yn helpu'r Cyngor i gael golwg fwy cymedrol ar ei berfformiad. Esboniwyd na fyddai'r hunanasesiad ac adborth o'r arolwg trigolion byth yn cyd-fynd yn llawn oherwydd y ffaith eu bod yn edrych ar bethau ychydig yn wahanol ond gyda'r broses a'r mecanwaith newydd ar waith o

amgylch adolygiadau cymheiriaid allanol, byddai hyn yn eu helpu i gyd-fynd yn fwy nag yn y gorffennol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at amserlen Hunanasesiad Blynnyddol 2023/24 a'i bryderon ynghylch yr ymgysylltu ar yr hunanasesiad gyda staff, aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill yn ystod mis Awst 2024. Roedd hyn oherwydd bod mis Awst yn draddodiadol yn gyfnod gwyliau i lawer o bobl a gofynnodd sut y gallai'r Cyngor sicrhau y byddai'r ymgysylltu'n parhau'n ystyrion pe bai nifer sylweddol o bobl i ffwrdd. Esboniwyd bod pryderon o'r fath hefyd wedi eu mynegi yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ac yr aethpwyd â'r pryderon hynny yn ôl i'r cydweithwyr perthnasol er mwyn mynd i'r afael â nhw. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod llawer o achosion o ymgysylltu eisoes wedi bod gyda rhanddeiliaid amrywiol dros y flwyddyn ac y byddai nifer o ddigwyddiadau rhanddeiliaid yn ystod mis Gorffennaf a gweddill misoedd yr haf. Byddai cyfleoedd hefyd i ymgysylltu ac ymgynghori o bosibl yn ystod cyfnod yr hydref hefyd.

Gwnaeth y Cynghorydd Protheroe gais gweithredol ynghylch ymgysylltu a mewnwleidiad y nododd eu bod yn amlwg yn hanfodol i ffurfio'r Cynllun Corfforaethol er mwyn helpu i nodi a dylunio'r hyn a oedd ei angen ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd fod defnyddio arolygon fel rhan o'r broses hon yn dda ond y gallai fod yn eithaf deuaidd o ran y cwestiynau a gafodd eu rhoi i bobl a arolygwyd a'i fod am i'r Cyngor edrych ar sut y gallai wneud mwy o ran sut y dangosodd i drigolion ei fod yn gwrandao ar eu pryderon a'u sylwadau yn ogystal â rhoi defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd yr hyn a wnaeth fel corff cyhoeddus. Gofynnodd a oedd modd, o fewn yr ymgysylltu a'r mewnwleidiad ychwanegol a oedd yn mynd i gael eu gwneud, fwydo gwybodaeth o'r fath yn ôl i'r Pwyllgor hwn er mwyn gallu gweld yn union yr hyn a oedd yn digwydd a'r hyn a oedd yn cael ei wneud gyda'r wybodaeth. Esboniwyd y byddai'r sylwadau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol er mwyn cynorthwyo.

Cefnogodd y Cynghorydd Ernest y sylwadau a'r pryderon a godwyd ynghylch mis Awst yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ymgysylltu ac effaith y cyfnod gwyliau hwn ar gyfraddau ymateb. Byddai'n cefnogi unrhyw argymhellion ynghylch naill ai ceisio ailalinio'r dyddiad mis Awst mewn rhyw ffordd neu roi mesurau eraill ar waith i sicrhau bod y calendr neu'r amserlen ar gyfer y broses yn rhoi cyfle digonol i ymgynghoreion roi adborth ystyrion. Byddai'r sylwadau'n cael eu cyfeirio at y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fel y Cyfarwyddwr perthnasol a oedd yn ymwneud â'r broses ymgynghori ac ymgysylltu.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD – Cyfeirio'r sylwadau / argymhellion canlynol gan y Pwyllgor i'r Cabinet i'w hystyried:

- Bod y Cyngor yn sicrhau bod y broses hunanasesu yn cyd-fynd cymaint â phosibl â'r safbwyntiau a fynegwyd drwy'r arolwg preswylwyr diweddar Dewch i Siarad am Fwyd yn y Fro.
- Ystyried y pryderon a'r risgiau posibl a godwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r hunanasesiad blynnyddol a'r amserlen gysylltiedig ar gyfer ymgysylltu. Fel rhan o hyn, dylid ystyried ymagwedd fwy hyblyg at yr

amserlen ymgysylltu, megis ymestyn yr hyd ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu, er mwyn sicrhau bod hyn yn ystyrlon ac yn gynrychioliadol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Sicrhau bod y Cabinet yn cael y cyfle i ystyried sylwadau / argymhellion y Pwyllgor fel rhan o'i ystyriaeth o'r adroddiad a sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y broses hon yn ogystal â sicrhau bod yr ymgynghoriad yn ddigon cadarn ac effeithiol.

147 CYFLWYNO DEISEB – GORUCHWYLLWYR CROESFANNAU YSGOL (CAC) –

Cytunwyd ar gynllun deisebau newydd y Cyngor gan y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2022, a gweithredwyd y cynllun ar 5 Mai 2022. Nododd y cynllun sut y gall aelodau'r cyhoedd gyflwyno deiseb (gan gynnwys e-ddeisebau) a sut y byddai'r Cyngor yn ymateb i unrhyw gyflwyniadau.

Ar 1 Mai 2024, derbyniwyd deiseb gan P. King gan y Cyngor o'r enw "Save our Lollipop Lady". Roedd y ddeiseb yn dweud: "VOG Council plan cutbacks. Removal of 11 Lollipop ladies' jobs. Making cutbacks in child safety is unacceptable. This is a vital service being provided that families around the Vale require".

Yn dilyn hynny, lluniwyd adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yn nodi safbwynt a chynigion presennol y Cyngor. Felly, gofynnwyd i'r Pwyllgor drafod y mater a chyfeirio unrhyw argymhellion i'r Cabinet.

Fel y Deisebydd Arweiniol, gwahoddwyd P. King i gyflwyno'r ddeiseb yng nghyfarfod y Pwyllgor, ac yn unol â chynllun deisebau'r Cyngor, byddai'n cael 3 munud o amser siarad i siarad gerbron y Pwyllgor. Roedd am i'r Pwyllgor a'r Cyngor ailystyried gwaredu'r swyddog croesi ysgol cymunedol lleol oherwydd nid yn unig y rôl ddiogelu hanfodol yr oedd yn ei chyflawni ar gyfer plant lleol wrth groesi ffyrdd o fewn y gymuned leol, ond hefyd y presenoldeb cyfarwydd, cyfeillgar a chysurol y mae ef a'i rôl yn ei roi i blant a thrigolion lleol, gan gynnwys dysgu plant sut i groesi'r ffordd yn ddiogel. Byddai ei waredu'n golygu y byddai'r ffyrdd yn llai diogel i blant eu croesi a chynyddu swm y traffig yn lleol, gyda phlant yn cael eu gyrru i'r ysgol gan eu rhieni yn hytrach. Byddai hyn yn ei dro yn effeithio'n negyddol ar iechyd a'r amgylchedd, yn ogystal â chynyddu'r risg o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd, yn enwedig i'r plant. Byddai unrhyw arbedion a gronwyd drwy waredu'r gwasanaeth hwn i'r Cyngor yn ddibwys, a byddai'r effeithiau negyddol y cyfeiriwyd atynt eisoes a diogelwch plant yn drech na'r arbedion hynny. Byddai croesfannau heb swyddogion croesi eraill yn yr ardal leol yn annigonol a hyd yn oed yn anniogel i blant lleol eu croesi heb oruchwyliaeth.

Cyflwynodd Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yr adroddiad i'r Pwyllgor yn dilyn hynny, gyda diweddariad allweddol sef nad oedd cynlluniau i waredu staff / gwasanaethau croesfannau â swyddogion croesi sydd wedi'u lleoli ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd. Roedd y Cyngor wedi llwyddo i ddod o hyd i £83k o'r arbedion o £100k a nodwyd yn flaenorol o ffynonellau eraill. Yn anffodus, nid oedd

ysgolion wedi gallu ymgymryd â gwasanaethau o'r fath eu hunain ac felly byddai'r Cyngor yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau anstatudol ond hanfodol hyn er mwyn sicrhau diogelwch plant ar ffyrdd lleol. Ochr yn ochr â hyn, byddai'r Cyngor yn adolygu'r croesfannau i gerddwyr i weld a fyddent yn elwa o gael goleuadau/rheolaethau neu groesfannau sebra, yn enwedig yng ngoleuni'r gostyngiad naturiol yn nifer y staff croesi ysgol dros amser, a chyda chyflwyno croesfannau a reolir a pharthau 20mya ger ysgolion a oedd wedi creu buddion. Fodd bynnag, roedd gweddill y staff a oedd yn gweithio ar y 11 o groesfannau eraill wedi cael sicrwydd nad oedd eu swyddi dan fygythiad. Gobeithio y byddai hyn yn rhoi sicrwydd i aelodau'r ddeiseb hon a'r cymunedau ehangach y maent yn eu cynrychioli.

Yn dilyn yr adroddiad, croesawodd y Cynghorydd Haines, gyda chaniatâd i siarad, y sicrwydd a roddwyd gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai dros y croesfannau ysgol â swyddogion croesi, yn enwedig mewn perthynas â'i Ward yn Sain Tathan. Dymunai atgoffa'r Pwyllgor a'r Cyfarwyddwr fod Sain Tathan yn tyfu gyda thai ychwanegol i'w hadeiladu yn y dyfodol agos a'i bod yn bwysig i'r Cyngor ystyried, o ran unrhyw adolygiad o unrhyw groesfan ysgol, fod angen edrych ar y pum ffordd o weithio ac ar ddatblygiad yn y dyfodol gydag unrhyw arbedion a fyddai'n cael eu gwneud drwy leihau croesfannau â swyddogion croesi mor fach fel eu bod yn ddibwys. Cydnabu'r Cyfarwyddwr bwysigrwydd cynnwys Aelodau Ward lleol mewn unrhyw drafodaethau ynghylch croesfannau ysgol. Derbyniodd bwysigrwydd cymhwyso'r pum ffordd o weithio wrth wneud penderfyniadau o'r fath ac y byddai'n ddefnyddiol cael croesfannau a reolir ochr yn ochr â swyddogion croesi ysgol er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion wrth groesi. Cynhaliwyd arolygon i gerddwyr i weld lle yr oedd pobl yn croesi mewn gwirionedd cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ochr yn ochr â chydgyssylltu ag Aelodau Ward lleol ac ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Gofynnodd y Cadeirydd beth fyddai cost croesfan a reolir gyda goleuadau i'r Cyngor. Esboniwyd bod hyn yn dibynnu ar led y ffordd, ond yn y bôn gallai'r rhain gostio unrhyw beth o £100k i fyny, yn enwedig os oedd gennyh ynys draffig yn y canol a phennau goleuadau ar wahân. Roedd croesfannau sebra yn opsiwn rhatach ond nid oeddent yn arbennig o effeithiol y tu allan i ysgolion.

Dywedodd y Cynghorydd Franks, gyda chaniatâd i siarad, ei bod yn dda clywed na fyddai swyddogion croesi ysgol yn cael eu torri, ond gofynnodd pam y cynigiwyd y toriad hwn yn y lle cyntaf a oedd wedi achosi llawer iawn o anhapusrwydd a phryder diangen i drigolion lleol, a sut roedd y gwerth £83k cysylltiedig o arbedion presennol eisoes wedi'u cyflawni a heb eu nodi cyn i'r Aelodau ystyried cyllideb y Cyngor. Mewn ymateb, dywedwyd bod y penderfyniad yn y maes hwn yn y pen draw wedi'i wneud gan Aelodau Etholedig fel rhan o adroddiad a chynigion y gyllideb yn ogystal â'r gyllideb a aeth i'r Cyngor Llaw i'w chymeradwyo. O ran yr arbedion o £83k, canfuwyd y rhain o ganlyniad i'r broses ariannol diwedd blwyddyn, gydag amser yn cael ei gymryd wedyn i'r arbedion gael eu nodi'n iawn. Nododd y Cynghorydd nad oedd pob Cynghorydd wedi cymeradwyo'r arbedion cyllidebol na'r toriadau.

Croesawodd y Cynghorydd Hooper y ddeiseb a'r cyflwyniad gan y Deisebydd Arweiniol yn y cyfarfod a heb ystyried y ffaith bod y Cyngor wedi newid ei feddwl, dangosodd hyn gymuned leol nad oedd yn barod i dderbyn pethau a oedd yn cael eu

gwneud iddi heb ei chaniatâd. Pwysleisiodd yn ogystal â seilwaith ac ystyriaethau eraill ynghylch swyddogion croesi ysgol, ei bod hefyd yn bwysig nodi bod y swyddogion croesi yn rhan hanfodol o gymuned leol ac yn helpu i blethu adeiledd cymdeithasol cymunedau a thrigolion lleol ynghyd a gwella ansawdd bywyd lleol yn ogystal â darparu diogelwch. Er bod opsiynau o ran systemau rheoli electronig, ac ati, roedd yn bwysig amddiffyn y gwasanaethau hyn sydd gyda gweithwyr ar y safle ar y lefel uchaf bosibl a byddai'n croesawu mewnbyn ar y penderfyniad gwleidyddol a wnaed ar hyn gan yr Aelod Cabinet perthnasol a oedd yn bresennol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Adeiladau a Chymdogaeth, gyda chaniatâd i siarad, fod yr eitem ar y Ddeiseb yn y cyfarfod heno yn enghraifft o'r Cyngor yn gwrando ar y cyhoedd a bod gan drigolion lleol y gallu i drefnu deisebau nid yn unig i'w cyflwyno i'r Cyngor Llawn ond hefyd i Graffu, ac roedd hyn yn enghraifft dda o'r Cyngor yn ystyried barn trigolion lleol a'r cyhoedd. Cyfeiriodd hefyd at enghreifftiau eraill lle'r oedd trigolion lleol ac Aelodau Craffu wedi cael eu clywed, er enghraifft ynghylch newidiadau i doiledau cyhoeddus a gwrthdroi toriadau yn y maes hwnnw. Pwysleisiodd hefyd fod swyddogion croesi ysgol yn asedau gwerthfawr i'w cymunedau lleol, nid yn unig o ran helpu pobl, yn enwedig plant ifanc i groesi'r ffordd, ond hefyd o ran y ffaith eu bod yn "llygaid ac yn glustiau" i'w cymuned yn yr ardal ac y byddai wrth ei fodd yn gweithio gydag Aelodau Craffu er mwyn helpu i nodi cronfeydd ac arbedion mewn mannau eraill er mwyn dileu toriadau posibl o'r fath yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cyngorydd Protheroe rai cwestiynau ynghylch darparu croesfannau ysgol, gyda hyd at 50 o ysgolion cynradd yn y Fro ac yn meddwl tybed beth oedd yn digwydd gyda'r 40 arall a oedd eisoes â datrysiad amgen o ran croesfannau ar waith a sut roedd y rhain yn cadw plant yn ddiogel. Fel rhan o'r adolygiad gyda'r 11 ysgol arall a oedd â chroesfan ysgol â swyddog croesi, a fyddai gofyniad am ddiogelwch lefel ychwanegol yn rhywbeth a fyddai'n cael ei ystyried hefyd. Cyfeiriodd hefyd at y profiad o'i Ward ei hun gyda chyflwyno'r terfyn cyflymder o 20mya a oedd wedi bod o fudd enfawr ac a groesawyd gan y Ward ond roedd yr ardal agosaf at yr ysgol wedi cael ei gwrthdroi yn ôl i 30mya a allai effeithio ar blant a oedd yn cerdded ar y palmant cul iawn gerllaw a'r gobaith oedd y byddai hyn yn cael ei wrthdroi yn ôl i 20mya yn y pen draw fel rhan o adolygiad. Esboniwyd bod meini prawf ar waith ar gyfer swyddogion croesi ysgol lle byddai arolwg yn cael ei gynnal er mwyn canfod faint o bobl, gan gynnwys plant ifanc, a groesodd y groesfan ar amser penodol yn ogystal ag edrych ar ddarpariaeth arall fel defnyddio 20mya y tu allan i leoliadau fel ysgolion. Yn ogystal, gellid rhoi mesurau rheoli cyflymder eraill ar waith i liniaru traffig. Byddai adolygiadau ac asesiadau o'r fath o ysgolion dim ond yn digwydd pe bai mater diogelwch wedi'i nodi ac ar hyn o bryd dim ond set benodol o ysgolion a oedd yn cael eu hystyried. O ran adolygiad o 20mya, roedd hyn yn parhau gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn ei gyfnod gwrando ar gyfer ymgynghori ac roedd sylwadau yn cael eu bwydo i mewn iddo. Roedd y llwybr a godwyd gan y Cyngorydd a rhai tebyg eraill yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon ac roeddent yn cael eu hystyried yng nghanllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar y llwybrau 20mya a oedd i fod i ddod allan ddiwedd mis Gorffennaf ac a allai arwain at nifer o newidiadau.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Ernest at benderfyniad y Cabinet i dorri rhai meysydd o fewn y Gwasanaethau Cymdogaeth, a oedd yn cynnwys nid yn unig swyddogion croesi ysgol ond hefyd meysydd fel ceudyllau a gwaith cynnal a chadw ffyrdd arall

nad oedd pob Aelod wedi cytuno iddynt. Roedd yn teimlo ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn dal i ddarparu swyddogion croesi ysgol lle bynnag y bo modd, ond lle na ellid eu darparu, yna bod dewis arall addas yn cael ei roi ar waith i sicrhau opsiynau diogel fel croesfannau a reolir neu leihau terfynau cyflymder o amgylch ysgolion. Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor, pan fo cynigion yn cael eu cyflwyno ar ffurf adroddiadau cyllideb ac ati, fod gan y Pwyllgorau Craffu gyfle o hyd i alw'r rhain i mewn neu unrhyw faterion penodol cysylltiedig sy'n berthnasol i'r Pwyllgor.

Cododd y Cadeirydd ymholiad gan y Cyngorydd Champion nad oedd yn anffodus yn gallu ymuno â'r cyfarfod a ofynnodd a oedd y Cyngor wedi ystyried unrhyw fath o nawdd mewn perthynas â thalu costau cyllido swyddogion croesi ysgol. Mewn ymateb esboniwyd nad oedd y Cyngor wedi edrych ar nawdd o ran y gwasanaeth hwn, ond roedd mathau o gyllid o'r fath wedi'u defnyddio mewn gwasanaethau eraill ond gyda chyfyngiadau cyllidebol cyfredol gellid edrych ar ddulliau amgen o gyllido er mwyn cefnogi swyddogion croesi ysgol yn y dyfodol.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD – Cyfeirio'r sylw / argymhelliad canlynol gan y Pwyllgor i'r Cabinet i'w ystyried:

- Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r penderfyniad, fel yr amlinellwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor heno, na ddylid cymryd unrhyw gamau i gael gwared ar y patrolau croesfannau ysgol presennol hyd nes y bydd adolygiad wedi'i gynnal fel sy'n briodol i sicrhau diogelwch plant.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad, y sylwadau a wnaed gan y prif ddeisebydd, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod.

148 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (PW) –

Nododd yr adroddiad ac Atodiad A ystod eang o weithgareddau a oedd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni yn erbyn ymrwymïadau yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd ac i fwrw ymlaen â Phrosiect Sero. Roedd hyn yn cynnwys y sgoriau cynnydd COG (coch, oren, gwyrdd) yn erbyn y camau yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd. Trafodwyd cynnydd ac uchafbwyntiau allweddol rhwng mis Hydref 2023 a mis Mawrth 2024 yn yr adroddiad. Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â'r cyllid a oedd yn gysylltiedig â Phrosiect Sero a'r defnydd o gronfa wrth gefn Prosiect Sero. Rhoddodd yr adroddiad hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a oedd yn flaenoriaeth yng Nghynllun Lles y BGC. Dangosodd yr adroddiad yn Atodiad B y Dangosyddion Perfformiad wedi'u diweddarau ar gyfer 2024/25 a hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am y dull o reoli rhaglenni.

Yn dilyn pob adran berthnasol o'r adroddiad, cynigiwyd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ac eraill roi sylwadau neu ofyn cwestiynau ynghylch yr adrannau perthnasol, a oedd yn cynnwys yr isod.

Gofynnodd y Cadeirydd am y Strategaeth Goed Ddrafft lle nododd y bu trafodaeth dda am hyn yn y Pwyllgor yn flaenorol a bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben ym mis Mawrth o ran y Strategaeth. Byddai'n ddefnyddiol iawn i'r Pwyllgor wybod beth oedd yr ymateb hyd yn hyn a phryd y byddai hyn yn cael ei gwblhau er mwyn iddo ddechrau gweithredu arno'n weithredol. Mewn ymateb dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai fod ymateb cadarnhaol wedi bod hyd yma i'r Strategaeth Goed, roedd y drafft cyntaf ar waith ar hyn o bryd ond nid oedd wedi'i gwblhau nes bod rhai ymatebion ymgynghori ychwanegol wedi'u darparu. Roedd y rhain yn cynnwys dau gyflwyniad sylweddol gan grwpiau lleol ac ar ôl i'r rhain gael eu darparu, byddai'r drafft yn cael ei anfon ymlaen at yr Aelod Cabinet perthnasol ac yn cael ei ystyried maes o law, ond gyda'r nod y byddai adroddiad yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl. O ran gweithredu ar lefel weithredol, roedd elfennau o'r Strategaeth Goed cyn cwblhau eisoes yn cael eu rhoi ar waith fel yr egwyddorion ynghylch cynyddu canopi coed mewn ardaloedd trefol a oedd wedi'u hymgorffori yn y rhan fwyaf o brosesau'r Cyngor yn ogystal â chynnydd yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer plannu ac ar gyfer cynnal a chadw coed. Byddai cwblhau'r Strategaeth Goed yn golygu y gallai grwpiau gwirfoddol wedyn gymryd rhan mewn helpu i weithredu'r Strategaeth hefyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Penn at y cynllun Adfer y Ddawan a gofynnodd a oedd y Cyngor yn gweithio yn yr ardal hon i helpu i wella ansawdd dŵr yn ogystal â chynefinoedd eraill. Hefyd, o ran y Strategaeth Goed, a fyddai'r Cyngor yn derbyn cyllid torfol i ddisodli coed perthnasol yng nghanol trefi pe bai'r ffynhonnell gyllido honno ar gael. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Lleodd i'r ymholiad ynghylch Adfer y Ddawan drwy ddweud bod y prosiect hwn yn cynnwys y Ddawan ei hun yn gynhenid a'i fod wedi'i anelu at y cynefin a oedd yn cynnwys dyffryn y Ddawan yn ogystal â'r afon ac felly byddai ansawdd dŵr yn fater allweddol yn ogystal â phlannu ac adfer y cynefin. Nodwyd bod grant wedi'i roi fel rhan o'r gwaith hwn o amgylch afon y Ddawan gan Cyfoeth Naturiol Cymru gydag ansawdd dŵr ac adfer cynefinoedd hefyd yn allweddol i'w nodau a'u hamcanion. Roedd y prosiect wedi bod yn hynod lwyddiannus hyd yn hyn wrth gyflawni canlyniadau gyda phlannu coed sylweddol ar raddfa ehangach. O ran cyllido torfol ar gyfer coed, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai y byddai'r Cyngor yn croesawu cyllido torfol a chymorth neu ymgysylltiad gan drigolion lleol gyda hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Drake hefyd at y Strategaeth Goed a monitro clefydau coed newydd a oedd yn dod ar draws i'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, a gofynnodd sut roedd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r rhain. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleodd fod gan y Cyngor ecolegydd a oedd yn gweithio i'r Cyngor yn ogystal â thyfwr coed yn y Tîm Gwasanaethau Cymdogaeth a oedd ill dau yn monitro clefydau coed a oedd wedi cynyddu oherwydd ffactorau amrywiol fel newid hinsawdd ac yn cadw eu hunain yn ymwybodol o unrhyw bryderon ynghylch y rhain neu fygythiadau eraill sy'n dod i'r amlwg. Roedd y swyddogion hyn hefyd yn gweithio gyda rhwydweithiau amrywiol er mwyn helpu i fonitro a mynd i'r afael â'r mater hwn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Protheroe at Heriau 13 – 18 yn yr atodiad Cynnydd y Cynllun Her Newid Hinsawdd yn yr adroddiad, gan nodi'r diffyg cynnydd amlwg wrth dorri allyriadau yn y gadwyn gyflenwi. Wedi hynny gofynnodd sut roedd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Lleoedd gan ddweud bod y Cyngor yn gweithio gydag Ardal ar hyn o bryd ar y cyd â'r system gaffael newydd, a oedd yn cymryd amser i gael ei hymwreiddio. Fodd bynnag, byddai'r system yn helpu i fwydo drwodd ar allyriadau maes o law a byddai'n cyd-fynd â deddfwriaeth newydd a oedd yn dod allan ym mis Hydref. Dywedodd y Cynghorydd Protheroe, er y gallai Ardal helpu gyda thendro, y byddai'n rhaid i'r Cyngor a'r gwasanaethau fod yn gyfrifol am greu manyleb a chomisiynu'r hyn fyddai ei angen ar y Cyngor fel awdurdod i brynu. Felly, byddai angen strategaeth gadarn yn fewnol i fynd i'r afael â hyn. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y byddai problemau'n cael eu bwydo'n ôl, a bod gwaith a wnaed yn flaenorol o ran y system gaffael newydd wedi oedi rhywfaint o'r gwaith arall y byddai'r Cyngor wedi hoffi ei wneud o safbwynt caffael mewnol, fel o ran lleihau carbon. Fodd bynnag, roedd hon yn broses barhaus a oedd yn cael ei thrafod ar draws pob adran. Wedyn, wrth lunio contractau a thendrau roedd y Cyngor yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC) er mwyn ymgorffori ystyriaethau lleihau carbon yn y rhain.

Gwnaeth yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Adeiladau a Chymdogaeth, gyda chaniatâd i siarad, annog trigolion i ddefnyddio'r siop aildefnyddio yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, a gwnaeth gyfeirio at weithredu ailgylchu masnachol yn ogystal â phreswyl, a'r angen i gaffael mwy o eitemau ar lefel leol er mwyn lleihau effaith allyriadau carbon; er nodwyd, oherwydd bod arferion caffael yn weddol anhyblyg, fod yn rhaid i'r Cyngor fynd drwy'r broses gywir o hyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at y ffrydiau cyllideb ar gyfer Prosiect Sero, a oedd yn ymddangos yn annigonol wrth fwrw targedau 2030 a gofynnodd sut y gellid gwneud y mwyaf o'r rhain. Nododd y Cadeirydd fod nifer o fentrau pwysig yn ddibynol ar gyllid â therfyn amser a gofynnodd pa gamau a oedd yn cael eu cymryd i sicrhau cynaliadwyedd y gwaith hwnnw. Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Adeiladau a Chymdogaeth drwy ddweud ei fod yn cytuno bod angen gwrthio agenda Prosiect Sero'n fwy, gan nodi bod Cymru bellach yn cael ei hystyried fel y wlad ail-orau yn y byd ar gyfer ailgylchu, a oedd wedi cynnwys ymdrechion trigolion y Fro i helpu i fwrw targedau o'r fath. Byddai'n codi'r sylwadau a wnaed yn y Pwyllgor i'r Cabinet i'w hystyried. Ychwanegodd y Cynghorydd Hooper ei bod yn bwysig nawr bwysio Prosiect Sero fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol fel un o'r heriau mwyaf i'r Cyngor dros y pum mlynedd nesaf. O ran cyllid â therfyn amser, esboniwyd nad oedd cronfa wrth gefn Prosiect Sero â therfyn amser ond ei bod yn gronfa wrth gefn a sefydlwyd y gellid ei chyrchu ar gyfer prosiectau cysylltiedig, yn ogystal â gwneud y mwyaf o botensial y gronfa wrth gefn trwy ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau perthnasol a oedd yn bodloni gofynion cronfeydd eraill fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin, tra'n bodloni gofynion Prosiect Sero hefyd. Byddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dod i ben ym mis Mawrth 2025, ond y gobaith oedd y byddai'n cael ei disodli gan iteriad arall maes o law. Oherwydd hyn, defnyddiwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer rhai prosiectau gan sicrhau bod rhan gyfalaf y rhaglenni wedi'i darparu o fewn yr amserlenni a chyn i'r cyllid ddod i ben. Roedd un o'r rhain yn cynnwys y gwaith ar y rhwydwaith hirsefydlog o lwybrau troed a llwybrau ceffylau o fewn y Fro a thu hwnt. O ran y cyfyngiadau cyllidebol, cydnabuwyd bod y Cyngor mewn sefyllfa gyllidebol anodd iawn ar hyn o bryd nad oedd yn edrych yn

debygol o wella wrth symud ymlaen, ond pwysleisiwyd bod newid hinsawdd yn parhau'n rhan allweddol, absoliwt o'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2025-2030 a'r datganiad a wnaed gan y Cyngor o ran yr argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth. Ychwanegodd Rheolwr y Rhaglen Prosiect Sero (Newid Hinsawdd) fod y Cyngor yn edrych ar wahanol ffyrdd o wneud y mwyaf o gyllid allanol a defnyddio technolegau ac asedau presennol er mwyn helpu i gyflawni Prosiect Sero i'r Cyngor, yn ogystal â helpu i gyflawni newid ymddygiadol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynnydd araf gyda'r gwaith a oedd yn cael ei wneud gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'r hyn a oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gryfhau'r gwaith hwn, yn enwedig o ran blaenoriaethau a rennir. Esboniodd Rheolwr y Rhaglen Prosiect Sero (Newid Hinsawdd) fod heriau o ran dod â'r holl grwpiau perthnasol a oedd yn rhan o'r BGC at ei gilydd. Fodd bynnag, roedd yn hyderus o hyd y byddai gwaith ar y trywydd iawn a byddai gwaith gyda'r BGC yn parhau o ran newid hinsawdd a Phrosiect Sero gyda Chyngor Bro Morgannwg yn cymryd rhan yn hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Protheroe at waith a oedd yn cael ei wneud gyda'r BGC a phartneriaid lleol ynghylch caffael pethau'n fwy lleol a gofynnodd a oedd unrhyw waith a oedd yn gysylltiedig â rhywbeth tebyg i fodel Preston neu adeiladu cyfoeth cymunedol o ran prynu eitemau lleol wedi cael ei ystyried. Esboniwyd bod adran y BGC yn cael ei thynnu at ei gilydd ar hyn o bryd ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol ac y byddai adran yno ar faterion hinsawdd a rhywfaint o'r gwaith caffael a oedd yn digwydd ar draws gwahanol bartneriaid ond ar hyn o bryd nid oedd Rheolwr y Rhaglen Prosiect Sero (Newid Hinsawdd) yn ymwybodol o unrhyw waith o ran model Preston neu debyg, ond byddai'n dod yn ôl at y Pwyllgor ar hynny ac yn rhoi adborth i'r grŵp BGC wrth gyfarfod nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at y System Draenio Cynaliadwy (SDCau) ac roedd yn siomedig o weld bod hyn wedi cwmpo yn ôl oherwydd ei fod yn ffio'n dda gyda'r Strategaeth Goed a gofynnodd am y rhesymau pam fod hyn wedi digwydd h.y. cyfyngiadau cyllidebol. Mewn ymateb, esboniodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai fod y Cyngor, oherwydd deddfwriaeth ynghylch y broses gynllunio ar gyfer datblygiadau newydd, yn gweithio ar set o ddogfennau i'w rhoi i'r cyhoedd er mwyn esbonio'r sefyllfa'n gliriach ac roedd yr adran berthnasol wedi cyflwyno cais pwysau cost am adnoddau staff ychwanegol ond yn aflwyddiannus oherwydd heriau cyllideb y Cyngor. Oherwydd hyn, byddai angen dod o hyd i adnodd yn rhywle arall er mwyn cynhyrchu'r ddogfen berthnasol ar ddraenio. Ar ben hynny, oherwydd blaenoriaethau a oedd yn ymwneud â rheoli llifogydd, yn anffodus bu'n rhaid rhoi llai o flaenoriaeth i'r gwaith o amgylch SDCau, ond byddai hyn yn cael ei daclo maes o law.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi'r cynnydd y manylwyd arno yn yr adroddiad ac Atodiad A mewn perthynas â'r heriau o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd a gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- (2) Nodi'r sgôr RAG ar gyfer cynnydd o fis Hydref 2023 i fis Mawrth 2024 yn Atodiad A i'r adroddiad.
- (3) Nodi'r cyllid sydd ar gael mewn cronfeydd wrth gefn a'r prosiectau y dyfarnwyd arian iddynt hyd yma.
- (4) Y dylid nodi'r Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol wedi'u diweddarau sy'n berthnasol i Brosiect Sero yn Atodiad B i'r adroddiad.
- (5) Y dylid cyfeirio'r sylw canlynol i'r Cabinet, i'w ystyried ochr yn ochr ag unrhyw sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a fydd yn ystyried yr adroddiad hwn ar 19eg Mehefin, 2024:
- Y pryderon a godwyd ynghylch 'pwysoli' agenda Project Zero a phwysigrwyd gwneud Prosiect Zero yn 'flaen ac yn ganolog' yn y Cynllun Corfforaethol.
- (6) Y dylid argymhell i'r Cabinet fod yr adroddiad hwn yn cael ei ddsbarthu i'r holl Aelodau Etholedig, aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1-4) O ystyried cynnwys yr adroddiad, ynghyd â'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (5) I'w ystyried gan y Cabinet fel rhan o'i ystyriaeth o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Cynllun Her Newid Hinsawdd.
- (6) Er mwyn diweddarau'r holl Aelodau Etholedig a rhanddeiliaid eraill ar y trefniadau sydd yn eu lle i gyflawni Prosiect Sero.

149 BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD – DIRPRWY WEDI'I ENWEBU AR GYFER Y CYDBWYLLGOR CRAFFU (CAC) –

Ceisiodd yr adroddiad enwebiad y Pwyllgor am ddirprwy gynrychiolydd penodol ar Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (CTCh) Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Byddai angen i'r enwebiad wedyn gael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

Yn dilyn hynny, pleidleisiodd y Pwyllgor am ddirprwy penodol i gynrychioli'r Cyngor ar CTCh Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a fyddai â hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd dywededig yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd. Cafodd y Cynghorydd Iannucci-Williams ei enwebu fel dirprwy, a byddai hyn wedyn yn mynd i'r Cyngor Llawn i'w gadarnhau.

Sgriwtini, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) Bod y Cynghorydd Iannucci-Williams yn cael ei argymhell i'r Cyngor fel y dirprwy enwebedig i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd - Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

(2) BOD y Cynghorydd Iannucci-Williams, y dirprwy a enwyd, â'r hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Craffu yn absenoldeb Cadeirydd Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd ac Adfywio.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, ynghyd â'r trafodaethau yn y cyfarfod.